

Galwad am weddi dros Wcráin wrth i'r anghydfod yno ddwysáu

Wrth i *Cenn@d* fynd i'r wasg roedd gwleidyddion ac arweinwyr y byd yn cynnal cyfarfodydd brys i drafod sefyllfa argyfyngus yr anghydfod ar y ffin rhwng yr Wcráin a Rwsia. Ochr yn ochr â hyn daeth cri gan sawl mudiad heddwch ac asiantaeth Gristnogol yn gofyn am bwylllo, am drafod synhwyrol ac oedi cyn unrhyw ymyrraeth filwrol. Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn crynhoi'r ymateb hwnnw.



Ers wythnosau bellach bu'r Wcráin yn y newyddion, wrth i densiynau godi rhwng Rwsia a'r wlad. Gwlad yn nwyrain Ewrop yw'r Wcráin, ac mae'n ffinio â Rwsia, Belarus, Gwlad Pwyl, Slofacia, Hwngari, Rwmania a Moldova. Mae gan y wlad boblogaeth o 44 miliwn o bobl, a hi yw'r wlad fwyaf yn Ewrop. Ers yr ymwahanu oddi wrth yr Undeb Sofietaidd yn 1991 mae'r Wcráin wedi closio at y gorllewin ac wedi gwneud cais ffurfiol i ymuno â'r Undeb Ewropeaidd. Serch hynny, mae trigolion ochr ddwyreiniol y wlad yn closio at Rwsia, a gwelwyd gwrthryfel yno ers 2014, gyda dros 14,000 o bobl wedi eu lladd. Erbyn hyn mae Rwsia wedi symud dros 150,000 o filwyr i'r ardal sy'n ffinio â'r wlad, ar gyfer yr hyn mae'r Arlywydd Vladimir Putin yn ei alw'n 'ymarferion milwrol'. Mae'r Arlywydd hefyd wedi cyhoeddi annibyniaeth i ddau ranbarth yn nwyrain y wlad, sef Donetsk a Luhansk.

Trafodaethau gwleidyddol

Cynhaliwyd nifer o drafodaethau gwleidyddol dwys yn rhyngwladol dros yr wythnosau diwethaf er mwyn ceisio datrys y bygythiad milwrol. Gwnaed datganiadau cryf gan Boris Johnson, Joe Biden ac eraill, gyda rhybuddion am sanctiynau llym yn erbyn Rwsia petai symudiad milwrol yn digwydd. Bu NATO a sawl llu milwrol hefyd yn paratoi cynlluniau strategol petai angen ymateb i argyfwng rhyfel, yn ogystal â mudiadau dyngarol fel y Groes Goch.

Yn ystod yr wythnos a aeth heibio fe deithiodd Adam Price o Blaid Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw, i'r wlad, gan gyfeirio at y cysylltiadau hanesyddol rhwng Cymru a'r Wcráin, er enghraifft, y ffaith mai Cymry sefydlodd ddinas Donetsk yn y 19eg ganrif, a bod amryw o bobl o'r

Wcráin wedi ymgartrefu yn ardaloedd y pyllau glo yng Nghymru. Meddai Adam Price, 'Po fwyaf y caiff pobl yr Wcráin eu bygwth gan ymddygiad ymosodol ac imperialaeth Rwsiaidd, po fwyaf yw'r brys i sosialwyr, democratiaid a chyd-wladwyr gydsefyll ochr yn ochr â nhw - i amddiffyn eu hawl i hunan-benderfyniad cenedlaethol ac yn erbyn rhyfelgarwch Putin.'

Cysylltiadau Bedyddiedig a Christnogol

Un arall a deithiodd i'r wlad yn ystod y dyddiau diwethaf hyn yw'r Parchedig Elijah Brown, Ysgrifennydd Cyffredinol Ffederasiwn Bedyddwyr y Byd. Mae dros 2,800 o eglwysi Bedyddiedig yn yr Wcráin, â chynulleidfau o dros 300,000 o bobl a dros 3,000 o weinidogion. Mae Elijah yn gofyn i'r teulu byd-eang sefyll mewn undod â Christnogion yr Wcráin, gan gofio amdanynt mewn gweddi. Mewn datganiad, meddai,

Fel brodyr a chwiorydd o fewn y teulu Cristnogol byd-eang, rydyn ni i gyd yn cael ein galw i fod yn dangnefeddwyr ac yn bobl o weddi. Tystiwn i'r gwirionedd Beiblaidd: 'os yw un aelod yn dioddef, mae'r holl aelodau'n dioddef'. Wrth i densiynau barhau ar hyd y ffin rhwng Rwsia a'r Wcráin, mae'n hollbwysig fod Cristnogion o gwmpas y byd yn sefyll gyda'r rhai sy'n dioddef ac yn gweddi'n daer am heddwch.

Rhannodd hefyd bwyntiau gweddi:

- Gweddïwch y byddwn fel Cristnogion yn dilyn ffordd Iesu ac yn ceisio cymod a heddwch.
- Gweddïwch dros fyd a diwylliant lle nad yw anghytundeb gwleidyddol yn

arwain at gasineb neu drais a rhyfel.

- Gweddïwch dros deuluoedd, yn enwedig y teuluoedd hynny sydd ag aelodau ger y ffin a bob ochr iddi - y byddant yn cael gofal a diogelwch.

Ceisio Cymod yw'r UNIG ffordd

Mudiad gweithgar sy'n ymgyrchu dros heddwch yw [Cymdeithas y Cymod](#). Mae'n gofidio dros les a budd y bobl gyffredin yn y wlad, yn sgil ymosodiadau rhyfelgar. Mae pobl gyffredin yr Wcráin a Rwsia wedi eu dal yn y canol rhwng y ddwy garfan filwrol bob ochr i'r ffin. Y bobl gyffredin, mae'n debyg, fydd yn dioddef waethaf os daw hi'n rhyfel - fel ym mhob rhyfel.

Mae Cymdeithas y Cymod am sefyll gyda heddychwyr yr Wcráin a Rwsia, drwy fynnu mai cymod yw'r unig ateb i anghydfod.

Dyma sydd gan Fudiad Heddychwyr Wcráin - y bobl sydd yn ei chanol hi - i'w ddweud: 'Mae angen i ni atal y casgliad o filwyr, y casgliad o arfau ac offer milwrol yn yr Wcráin a'r cyffiniau. Mae Mudiad Heddwch Wcráin yn condemnio'r gwaith o baratoi'r Wcráin ar gyfer rhyfel â Rwsia. Rydym yn benderfynol o beidio â chefnogi unrhyw fath o ryfel ac ymdrechur i gael gwared ar bob achos rhyfel'.

Meddai Rhun Dafydd, Cadeirydd Cymdeithas y Cymod:

Mae'r sefyllfa yn yr Wcráin yn amlwg yn un bryderus ond mae'r neges o gymod yn bwysig i'w rhannu mewn byd gwleidyddol sydd mor obsesiynol â thrais a phŵer. Mae'n rhaid cofio'r bobl sydd yng nghanol hyn i gyd; nid yw pobl Wcráin am weld rhyfel o unrhyw fath yn eu gwlad. Ein neges ni i arweinwyr y byd yw fod cariad wastad yn trechu atgasedd.

Heb os, bydd y dyddiau nesaf yn rhai allweddol. Gobeithiwn y bydd sgrysiâu deallus ac ystyrlon yn digwydd, ac y bydd modd datrys sefyllfa lawn tensiwn mewn ffordd heddychlun. Mewn dyddiau heriol felly, ymrow'n i weddi, gan geisio cymod a heddwch i'n byd.

Adnoddau newydd ar gyfer y Grawys 2022

Beth yw ystyr tymor y Grawys?

Y Grawys yw'r cyfnod o chwe wythnos (40 diwrnod heb gynnwys y Suliau) yn arwain at y Pasg, ac mae'n dechrau ar ddydd Mercher y Lludw. Gelwir wythnos olaf y Grawys yn Wythnos Fawr. Yn 2022 mae'r Grawys yn dechrau ddydd Mercher, 2 Mawrth, ac yn dod i ben ddydd Iau, 14 Ebrill.

Adnoddau newydd ar gyfer y Grawys 2022

Bob blwyddyn, bydd Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon yn creu cyfres o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer chwe wythnos y Grawys. Eleni, mae cysylltiad Cymreig cryf i'r adnoddau hynny gan fod yr adnoddau nid yn unig yn cynnwys darnau o'r Ysgrhythur fel maes trafod, ond hefyd ddeunydd yn seiliedig ar fywyd a gwaith y Santes Gwenffrewi, Treffynnon. Teitl yr adnodd eleni yw 'Dilyn Crist yn ôl traed y saint dan gyfarwyddyd hanes y Santes Gwenffrewi'. Mae'r adnoddau hyn ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o wefan www.ctbi.org.uk.

Mae pob un o'r chwe astudiaeth yn dechrau gyda darnau o'r Beibl, ac eleni fe'n harweinig i gyfeiriad Mathew 6:19-21, Rhufeiniaid 10:11-13, Philipiaid 3:17-4:1, Eiseia 55:4-9, Salm 32:6-11 ac Eiseia 43:19-21. Yna cawn ein tywys yn ddyfnach i hanesion traddodiadol am y Santes Gwenffrewi (er y pwysleisir nad oes raid dilyn y straeon hyn). Mae'r hanesion hyn yn taro tant â llawer thema yn ein byd modern: aflonyddu a gorfodaeth rywiol, camddefnyddio grym, sefyllfa ffydd a'r hawl i ddilyn Iesu, a'r angen yn y dyddiau hyn am wellhad a gobaith.

Pwy oedd Gwenffrewi?

Tybir mai merch i deulu uchelwrol yn y 7fed ganrif oedd Gwenffrewi, a'i bod yn byw ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Roedd Gwenffrewi yn Gristion pybyr, yn awyddus i ddysgu am Iesu a'i ddilyn, dan arweiniad a dysgeidiaeth ei hewythr, Beuno. Oherwydd ei hymrwymiad i'w ffydd, torrwyd pen Gwenffrewi pan geisiodd ddianc rhag Caradog, gŵr o dras uchel oedd wedi bygwth ymosod arni'n rhywiol petai'n gwrthod ei briodi. Yn y fan lle disgynnodd ei phen i'r ddaear, sef Treffynnon bellach, tarddodd ffynnon o ddŵr croyw. Roedd Beuno yn gweddio gerllaw; fe gododd ei phen a'i osod yn ôl ar ei chorff, a'i hadfer i fywyd. Buchedd sanctaidd fu hanes Gwenffrewi



wedi hynny, a daeth yn abades lleiandy Gwytherin, heb fod ymhell o Lanrwt. Dygwyd ei gweddillion o Wytherin i Abaty'r Amwythig ym 1137 er gwaethaf gwrthwynebiad lleol, a chafodd gweddillion Beuno Sant hefyd eu dwyn a'u cludo i'r abaty ymhen amser.

Coeden Iesu ac Efengyl Ioan

Mae Cyngor yr Ysgolion Sul / Cyhoeddiadau'r Gair hefyd wedi cynhyrchu cyfres o adnoddau newydd ar gyfer Grawys 2022, sef myfyrdodau 'Coeden Iesu'. Mae'r adnoddau hyn yn ein tywys ar daith ddeugain niwrnod o ddydd Mercher y Lludw hyd at y Pasg, a hynny gan ddilyn naratif Efengyl Ioan. Trwy fynd ar y daith hon drwy'r efengyl, bydd cyfle i ni ddarllen ei holl gynnwys, gan ddilyn



cyfres o fyfyrdodau, her y dydd a gweddi ddyddiol dros y deugain niwrnod. Eto, mae'r adnoddau hyn yn rhad ac am ddim, a cheir mynediad atynt drwy ymweld â gwefan www.ysgolsul.com

Ar gyfer pob un o ddeugain niwrnod y Grawys bydd addurn yn cael ei osod ar 'Goeden Iesu', a fydd yn arwain at fyfyrdod i ysgogi'r meddwl, gweddi fer o ddefosiwn, a gweithgaredd neu her ddyddiol.

Beth yw 'Coeden Iesu'?

Datblygiad o'r syniad o 'Goeden Jesse' yw 'Coeden Iesu' mewn gwirionedd. Yn wreiddiol, roedd Coeden Jesse yn dangos hanes proffwydoliaeth ac achau Iesu, a'r disgwyliad amdano yn yr Hen Destament, yn union fel y byddai ein coeden deulu ni. Weithiau roedd gan eglwysi a chadeirlannau ffenestri lliw o Goeden Jesse yn darlunio rhai o'r golygfeydd hynny. Mae Coeden Jesse yn ffordd o fyfyrto ar stori Duw a'n rhan ninnau, pobl Dduw, yn y stori honno.

Fe'n gwahoddir i fynd ar daith sy'n llawn gobaith ac addewid, ac yn ein cyfeirio at ffordd a ragfynogodd ddyfodiad y Meseia, y Crist Iesu, i'n byd. Mae 'Coeden Iesu' yn mynd â'r syniad hwn ymhellach, ac yn canolbwyntio ar enedigaeth, bywyd, gweinidogaeth, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu.

Bob diwrnod, cyhoeddir adnoddau a fydd yn cynnwys:

- ar gyfer teuluoedd cyhoeddir her ddyddiol ar dudalen Facebook [Beibl Byw](https://www.facebook.com/BeiblByw), lle cawn ein hannog i gyflawni gweithred o garedigrwydd yn ystod tymor y Grawys – cyfle i feddwl am eraill wrth agosáu at gyfnod y Pasg;
- myfyrdod i'w ddarllen, a gyhoeddir ar dudalen Facebook [Beibl Byw](https://www.facebook.com/BeiblByw);
- testun Efengyl Ioan, fydd yn cael ei rannu ar dudalen Facebook [beibl.net](https://www.facebook.com/beibl.net);
- gweddi ddyddiol, fydd yn cael ei rhannu ar dudalen Facebook [Gair o Weddi](https://www.facebook.com/Gair_o_Weddi).

Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu rhyddhau bob bore am 8 o'r gloch.

Beth am droi atynt bob dydd, gan gymryd y cyfle i'w rhannu ar eich tudalen Facebook chi, er mwyn rhannu'r adnoddau ag eraill?

Mary Wynne Jones (1925 – 2022)

Ganwyd Mary Wynne ar 6 Hydref 1925 yn ferch i George a Winifred Wynne Williams. George oedd fferylllydd tref Dolgellau ac yno, yn Bodwyn, Dolgellau, y magwyd Mary Wynne a'i dau frawd, Richard a Hugh.

Aeth Richard ymlaen i ddilyn ei dad yn y fferyllfa ac amaethu ar Gader Idris fu hanes Hugh. Ond roedd Mary Wynne yn ansicr am gyfnod beth fyddai ei dyfodol wedi ei chyfnod hapus yn Ysgol Dr Williams, Dolgellau, lle roedd yn un o'r 'day girls'.

Ar ôl cyfnod o ddwy flynedd yn gweithio yn y siop gyda'i thad, cafodd gyngor gan Mr Redvers-Jones, Swyddog Ieuenctid y sir, y dylai fentro i fynychu cwrs oedd yn dechrau ym Mhrifysgol Abertawe, sef Diploma mewn Arweinyddiaeth Ieuenctid. Yn dilyn ei llwyddiant yn Abertawe, yn hytrach na mynd yn ei blaen i astudio am radd yn y Gymraeg, ymgeisiodd am swydd gydag Urdd Gobaith Cymru yn Llanfyllin.

Wedi cyfnod difyr a bywiog yno, ymgeisiodd yn llwyddiannus am swydd newydd Trefnydd yr Urdd yn sir Geredigion, y gyntaf i wneud y gwaith hwnnw. Yn ystod ei chyfnod yn gwneud y gwaith hwnnw, roedd yn byw yn Llanbedr Pont Steffan ac yno, mewn cwrdd gweddi, y cyfarfu â gweinidog ifanc, cyn-löwr o Fancffosfelen, Tom Ellis Jones, oedd yn gofalu am Noddfa, Llanbedr; Bethel, Silian a Chaersalem, Parc-y-rhos.

Yn 1951, priodwyd Mary Wynne a Tom Ellis a daeth y ddau â chryfderau a doniau gwahanol i bartneriaeth effeithiol a diwyd a barodd drwy eu bywyd priodasol. Flynyddoedd wedyn nododd Tom Ellis, 'ers i ni briodi yn 1951, rydw i wedi ystyried y weinidogaeth fel gweinidogaeth ar y cyd ... ac felly y bu'.

Yn 1955, derbyniwyd galwad i Fethesda, Glanaman, a chafwyd 14 mlynedd yn gweithio a gwasanaethu'n hapus yno gyda phrysurddeb a gweithgaredd mawr mewn cymuned glòs. Yno hefyd, yn y Cottage Hospital, y ganwyd y meibion, Emyr ac Arwel.

Yn 1969, symudodd y teulu i Llandudno, lle buont yn gweinidogaethu yn y

Tabernacl, Llandudno, a hefyd am gyfnod yn ddiweddarach yn Horeb, Cyffordd Llandudno, nes i Tom Ellis ymddeol yn 1979.

Wedi cyfnod byr ar ôl ymddeol yn byw yn Llandudno, symudodd y ddau yn ôl i Ddolgellau, cartref Mary Wynne, a buont yn cyd-fyw yno'n hapus hyd at farwolaeth dawel ond sydyn Tom Ellis ym mis Rhagfyr 1999. Bu Mary yn byw'n hapus a bodlon yn ei chynefin hyd at ei marwolaeth.


Rhai o nodweddion amlycaf Mary Wynne oedd ei bywiogrwydd a'i hawyddi weithio dros yr eglwys a hefyd mewn meysydd ehangach diwyllianol dros y Gymraeg. Yn 2002 cafodd ei hanrhydeddu fel Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru a bu hefyd yn Llywydd ac un o hoelion wyth Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Roedd yn un o griw bychan ond diwyd oedd ynghlwm â sefydlu Cartref Glyn Nest a hefyd, yn ddiweddarach, Gartref Bryn Lliffon yn y gogledd.

Yn ogystal â'r ffaith ei bod mor fywiog a siaradus, yr un peth y byddai pawb yn tystio amdani oedd ei bod yn gwybod pob dim ac yn nabod pawb! Roedd yna wyddoniadur yn ei phen ac roedd ei gwybodaeth am bobl a theuluoedd – yn lleol ac yn ehangach – yn anhygoel. Tan yn ddiweddar, a hithau'n ymhell yn ei nawdegau, byddai'n aml yn derbyn ac yn ymateb i geisiadau am wybodaeth am gysylltiadau teuluol, enwadol a lleol.

Ar ôl blynyddoedd lawer o fywyd annibynnol fel gwraig weddw, gyda ffrindiau da a theulu yn gefn iddi, fe'i trawyd gan salwch gyda throad y flwyddyn eleni. Ar ôl cwta fis, daeth ei bywyd i ben gartref yn ei gwely.

Fel Cristnogion, rydym yn diolch am gyfraniad Mary, a hefyd y diweddar Tom Ellis; rydym yn diolch am y bartneriaeth a fu. Ond rydym yn cofio mai eu cyfraniad mwyaf oedd ein cyfeirio at y gwir Bendefig na fydd diwedd ar ei Deyrnas, sef Iesu Grist.

Fel mae'r hen emyn pwerus yn ein hatgoffa: 'Cododd Iesu! Nos eu trallod aeth yn ddydd.' Heddiw, yng nghanol oerfel y gaef, rydym yn ymwybodol iawn o afael tristwch ac angau ar ein byd,



OND yn Iesu rydym ni'n gallu profi awel gynnes yn dod o'r cyfeiriad arall.

Gall y Cristion fod yn sicr o'r dyfodol gan fod y dyfodol wedi dod i mewn i'r presennol ym mherson Iesu Grist. Mae'n gwybod fod pob pechod, poen a phryder wedi ei gymryd ganddo ar y Groes.

Ac yn ei atgyfodiad rydym yn cael ernes nad marwolaeth sydd â'r gair olaf; mae angau wedi colli ei golyn. A dyma, yn syml iawn, yw'r cysur a'r gobaith i chi fel teulu a ffrindiau heddiw. Y cysur yw gwybod bod Mary bellach yn nwylo diogel ei Gwardedwr.

Mae hi eisoes yn profi'r hyn rydym ni'n disgwyl yn eiddgar amdano: y Nefoedd a'r Ddaear Newydd, lle na fydd marwolaeth mwyach, na galar na llefain na phoen, ac y bydd Iesu ei hun yno yn 'sychu pob deigrin' (Datguddiad 21:4).

Roedd y cyfnod olaf o wendid yn anodd ond, yng nghanol hwnnw, troi at ei ffydd wnaeth hi i geisio nerth. Does dim diweddglo gwell i'r cofnod hwn amdani na dyfynnu'r emyn a fu hithau'n ei ddyfynnu mewn gweddi yn ystod y nos ddiwrnod neu ddau cyn iddi farw:

Cymer, Arglwydd, f'ei noes i
i'w chysegru oll i ti;
cymer fy munudau i fod
fyth yn llifo er dy glod.

Paratowyd y deyrnged gan y Parch Rhys Llwyd gyda chymorth y teulu, ac fe'i traddodwyd gan y Parch Iwan Llewelyn Jones yn yr oedfa i ddiolch am fywyd a gwasanaeth y ddiweddar Mary Wynne Jones ar 12 Chwefror.



Y Silff Lyfrau



Mae Gary Burnett o Belfast yn ddyrn rwyf wedi ei adnabod ers llawer blwyddyn. Mae'n gyfuniad diddorol o ŵr busnes ac ysgolhaig Beiblaidd sy'n arbenigo mewn astudiaethau Paulaid. At hynny, mae'n berson hawddgar, bywiog a hynod gymdeithasol. Yn y gyfrol fach, *Paul Distilled* (Eugene, OR: Wipf & Stock, 2021; 978-1-7252-8982-6, \$16.00, xiii + 142; clawr papur), mae wedi ceisio crynhoi'r hyn mae'n ei gredu yw cnewyllyn dysgeidiaeth yr apostol. Gwna hyn ar sail blynyddoedd o brofiad yn darlithio mewn colegau diwinyddol yng Ngogledd Iwerddon a chynnal llu o ddisbarthiadau Beiblaidd mewn eglwys yn Belfast a'r cyffiniau.

Mae'n defnyddio cynnwys y tri epistol ar ddeg sy'n dwyn enw'r apostol yn y Testament Newydd at ei bwrpas. Angora'r ddysgeidiaeth hon yn yr amgylchiadau, a'r rheiny'n aml iawn yn rhai truenus, a ddiodefai'r Cristnogion cynnar yn y ganrif gyntaf yn Rhufain ac mewn manau eraill yn yr ymerodraeth. Yr un pryd, ceisia gysylltu'r ddysgeidiaeth hon ag anghenion ein byd cyfoes, gan ymdrechu i'w gwneud yn berthnasol i'n byd ni heddiw. Ar ddiwedd pob pennod mae'n cynnwys adran o dan y pennawd 'Myfyrdod'. Ynndi rhestra nifer o gwestiynau'n seiliedig ar gynnwys y benod honno. Bwriad y cwestiynau hyn



yn nid yn unig gynnig sialens i'r darlennydd unigol ond hefyd ennyn trafodaeth mewn grwpiau eglwysig.

Beth feddyliech chi yw thema ganolog llythyrau'r Apostol Paul? Yn draddodiadol, o leiaf mewn cylchoedd Protestannaidd, yr ateb fyddai'n ddia 'Cyfiawnhad drwy Ffydd'. Dyna'r athrawiaeth a ddarganfu Martin Luther yn ei Lythyrau at y Rhufeiniaid a'r Galatiaid ac a roddodd fod, mewn gwirionedd, i'r Diwygiad Protestannaidd. Yn sicr, mae ymadroddion a geirfa sy'n defnyddio iaith cyfiawnhau a chyfiawnhad yn britho'r rhan fwyaf o'i lythyrau.

Fodd bynnag, haera Gary Burnett mai cariad yw prif thema'r llythyrau ac y gellir galw Paul yn 'Apostol Cariad'. Mae'n ein hatgoffa fod Paul yn cyfeirio at gariad dros gant o weithiau yn ei lythyrau, a dyfynna un o'i ddywediadau pwysicaf: 'Prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechuriaid' (Rhufeiniaid 5:8).

Nid oes sôn fod unrhyw dduwiau paganaidd wedi caru pobl; i'r gwrthwyneb, rhaid oedd eu boddau a'u plesio hwy drwy offrymu aberthau neu roddion eraill iddynt. Ymateb priodol credinwyr i gariad Duw oedd caru pobl eraill: 'oherwydd', meddai Paul, 'y mae'r gorchmynion ... wedi eu crynhoi yn y gorchmyn hwn: "Câr dy gymydog fel ti dy hun"' (Rhufeiniaid 13:9).

Yna eir ymlaen i bwysleisio'r atgyfodiad, oherwydd ei ymgyfarfyddiad â'r Crist atgyfodedig a'i harweiniodd i ganfod arglwyddiaeth Crist dros fywyd a marwolaeth. Roedd hyn yn arwydd bod Duw am ailfeddiannu ei greadigaeth a sefydlu ei deyrnas, a nodwedid gan gyfiawnder, heddwch a llawenydd. Byddai



PAUL DISTILLED

Gary W. Burnett

hyn oll yn bosibl drwy nerth yr Ysbryd Glân sy'n gallu llenwi dilynwy'r Iesu â phresenoldeb Duw a thrawsffurfio'u bywydau'n llwyr. Amlygwyd hynny ym mywyd a chenhadaeth y cymunedau Cristnogol cynnar. Roedd hon yn neges gref i'r credinwyr hynny a wynebai'r amodau byw garw y cyfeiriwyd atynt yn gynharach.

Ceir yn y gyfrol fach hon gan ysgolhaig medrus ac athro profiadol grynhoed o feddylfryd canolog yr apostol mewn Saesneg sy'n hynod gyfoes ac yn agos iawn at iaith lafar. Mae hyn oll yn sicr o apelio at gylch eang o ddarllenwyr heddiw ac yn foddion i ysgogi grwpiau eglwysig i fynd ati i drafod hanfodion dysgeidiaeth Paul. Ychwanegir llyfryddiaeth fer a fydd yn gymorth iddynt ddarllen ymhellach yn y maes.

John Tudno Williams

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 27 Chwefror, am 7:30yh (ailddarlliedir am 11:30yb y Sul canlynol)

Ymunwch â ni'r wythnos hon pan fyddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Llundain. Bydd Huw yn clywed hanes rhyfeddol y Cymry alltud ac yn cwrdd â rhai o'r bobl sy'n dal i gynnal ac arddel eu Cymreictod ym mhrifddinas Lloegr heddiw. Daw'r canu mawl o'r Eglwys Gymraeg yng nghanol y ddinas, Capel y Bedyddwyr, Eastcastle Street, o ddigwyddiad sy'n uchafbwynt blynyddol i Gymry Llundain, sef Cymanfa Undebol Capeli Cymraeg Llundain.

Gallwch weld cylchlythyr mis Chwefror *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* drwy ddilyn y ddolen hon: Dechrau Canu Dechrau Canmol

BBC radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 27 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp

Y gyntaf mewn cyfres newydd lle bydd R. Alun Evans yn cyflwyno rhaglenni ar amrywiol themâu. Gwladgarwch sydd dan sylw heddiw yn ystod wythnos Gŵyl Ddewi.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 27 Chwefror, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Jim Clarke, Llanfair-pwll

Sul Newid Hinsawdd yn gadael gwaddol gwerthfawr



Ar ôl ysgogi miloedd o eglwysi a grwpiau eglwysig ledled Prydain ac Iwerddon i weithredu ar newid hinsawdd yn y cyfnod cyn COP26, mae ymgyrch Sul yr Hinsawdd bellach wedi dod i ben, gan adael gwaddol parhaol o adnoddau gwerthfawr y gall eglwysi eu defnyddio i gymryd camau pellach.

Cymerodd dros 2,300 o eglwysi a grwpiau eglwysig ledled Prydain ac Iwerddon ran ym menter Sul yr Hinsawdd yn y cyfnod cyn COP26, gan fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy gynnal gwasanaethau Sul yr Hinsawdd, ymrwymo i weithredu ymarferol a chodi llais dros gyfiawnder hinsawdd. Mae'r defnydd helaeth hwn o'r fenter ar draws traddodiadau eglwysig amrywiol yn dangos ymrwymiad cynyddol gan eglwysi lleol i weithredu ar newid hinsawdd. Dyma hefyd yr ymateb eciwmenaid mwyaf i'r argyfwng hinsawdd yn y Deyrnas Unedig yn y cyfnod cyn COP26.

Er enghraifft, ym mis Ebrill 2021 gosododd Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru yr her uchelgeisiol i'r eglwys honno gyrraedd di-garbon net ar draws eglwysi, cadeirlannau, esgobaethau ac ystadau ysgolion erbyn 2030. Bu i Gymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru benderfynu dad-fuddsoddi mewn tanwydd ffosil yn eu cyfarfod yng Nghaerdydd fis Medi diwethaf wrth lansio polisi amgylcheddol oedd yn galw ar eglwysi ac aelodau i roi ystyriaeth i'w heffaith amgylcheddol ym mhopath a wnaent.

Nawr, cynllun y glymblaid o eglwysi ac asiantaethau Cristnogol a arweiniodd Sul yr Hinsawdd yw adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros gyfnod yr ymgyrch. Fel rhan o hyn, byddant yn cynnal gwefan ddwyieithog Sul yr Hinsawdd – www.climatesunday.org – sy'n dangos sut y gall eglwysi lleol gymryd camau pellach i warchod natur. Mae ystod eang o adnoddau addoli yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac arweiniad ar sut i barhau i godi llais am yr argyfwng hinsawdd. Bydd y cynlluniau

EcoChurch a Live Simply hefyd yn parhau i fod ar gael i eglwysi lleol ymuno â nhw.

Mae Andy Atkins, cyd-gadeirydd Sul yr Hinsawdd a Phrif Weithredwr A Rocha UK, yn esbonio: "Mae'r ymrwymiad i weithredu a ddangoswyd gan filoedd o eglwysi fel rhan o Sul yr Hinsawdd yn ysbrydoledig. Fe ddaw â chynnydd ymarferol ac â gobaith, yn unedig i bobl ifanc sy'n ysu am weld eu cymunedau



eglwysig a gwleidyddion yn ymwneud â'r mater hollbwysig hwn. Bydd yr adnoddau cyfoethog sydd wedi eu llunio gan aelodau'r ymgyrch yn helpu eglwysi lleol i barhau i weithredu'n effeithiol yn 2022 pan fydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn llywydd ar COP."

Dyweddod y Parchedig Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, "Bu ymrwymiad cymaint o eglwysi lleol, enwadau a mudiadau Cristnogol yng Nghymru i Sul yr Hinsawdd yn galonogol, gyda defnydd eang ar y deunydd addoli ac ymgyrchu yn y ddwy iaith. Trwy sicrhau parhad y wefan ddwyieithog, bydd y gwaith a wnaed yn 2020-21 yn dal ar gael i'r eglwysi barhau â'u gwaith yn gwarchod Cread Duw."

Dyma ambell enghraifft yn dangos llwyddiant Sul yr Hinsawdd mewn ystod o wahanol enwadau ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig:

Eglwys Meadowside St Paul, Dundee, yr Alban

Adeiladodd y bobl ifanc gwch cyfiawnder hinsawdd, *Seas the Day*, a gafodd ei ailgylchu gan blant heddiw o gwch a wnaed flynyddoedd yn ôl gan genhedlaeth flaenorol o bobl ifanc. Tynnwyd y cwch ar droli cartref wedi'i ailgylchu o Meadowside St Paul,



Cwch cyfiawnder hinsawdd, Eglwys St Paul, Dundee.

Dundee i St Andrew's ar 31 Hydref. Gosodwyd rhai cychod papur â gweddïau llawysgrifen cynulleidfara'r eglwys ac addewidion am gyfiawnder hinsawdd yn y gragen fel rhan o'n haddoliad.

Eglwys Sant Martin ac Eglwys Sant Hilari ym Mhlwyf Cilâ, Abertawe

Yng ngwasanaeth Sul yr Hinsawdd, clywsant am Salote, bachgen saith oed yn byw ar ynys a oedd dan fygythiad gan ystormydd a newyn yn Ne'r Môr Tawel. Cafwyd *montage* gweddi grymus gan gyfranwyr i COP26 a cherdd â'r teitl 'Pe bai'r ddaear yn ddim ond ychydig droedfeddi mewn diamedr'.

Ysgogodd menter Sul yr Hinsawdd gannoedd mwy o eglwysi i ymuno ag un o bedwar cynllun gwyrddio'r eglwysi a oedd yn bodoli eisoes, gan fynd â chyfanswm yr eglwysi a gymerodd ran heibio'r 5,000 yn yr wythnos cyn COP26.

Rhaglenni sy'n seiliedig ar wobrau sy'n arfogi eglwysi i weithredu ar yr amgylchedd, yn eu heglwys a'u cymuned leol, yw'r 'Cynlluniau Gwyrddio'. Cânt eu hannog i wneud hyn trwy addoli a dysgu, lleihau allyriadau carbon, ystyried eu tir a ffridd unigolion o fyw, a chodi llais am yr hinsawdd. Mae tri phrif gynllun annibynnol yn y Deyrnas Unedig i helpu eglwysi ar lawr gwlad i fynd i'r afael â newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a materion amgylcheddol dybryd. Bellach, mae 9,248 o eglwysi'r Deyrnas Unedig wedi'u cofrestru ag un o'r cynlluniau hyn.

Eco Church, a gynhelir gan A Rocha UK, yw'r cynllun ar gyfer eglwysi yng Nghymru a Lloegr: <https://ecochurch.arocha.org.uk>.

Mae o leiaf 747 o gynrychiolwyr eglwysi lleol wedi arwyddo'r datganiad 'Nawr yw'r Amser' (gan ymuno â chyfanswm o bron i 200,000 o lofnodwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus). Mae hyn yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn ei rôl fel Llywydd COP26, i fod yn llawer mwy uchelgeisiol wrth geisio sicrhau toriadau cyflymach a dyfnach mewn allyriadau byd-eang, darparu cyllid sydd wedi ei addo ers amser maith i helpu gwledydd tlotach i addasu i'r amharu sy'n digwydd i'r hinsawdd, ac adferiad economaidd gwyrdd yn dilyn Covid. Gallwch ychwanegu eich enw neu eich eglwys i'r ddeiseb ar: <https://thetimeisnow.uk>.

(Addaswyd o ddatganiad i'r wasg gan Glymblaid Sul yr Hinsawdd, 14 Chwefror 2022)

Polisi Amgylcheddol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru

"Fel Eglwys rydym yn ymrwymo i ofalu am greadigaeth Duw, drwy fuddsoddi'n fwriadol i leihau ein ôl troed carbon, drwy gynyddu ailgylchu, drwy leihau gwastraff, a gwella effeithiolrwydd ein defnydd o adnoddau naturiol ein byd."



Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Dyma'r olaf yn y gyfres o fyfyrnodau o'r gyfrol The Prince of Peace in a World of Wars gan David Kerrigan.

Heddwch 16 Rhoi theori ar waith

Gair personol

Darllen: Numeri 6:22-7

Bydded i'r ARGLWYDD dy fendithio a'th gadw;

Bydded i'r ARGLWYDD lewyrchu ei wyneb arnat, a bod yn drugarog wrthyt;

Bydded i'r ARGLWYDD edrych arnat, a rhoi iti heddwch. (adn. 24-6)

Heddiw, down â'n hymchwiliad i heddwch Duw i ben; eto, yn naturiol, mae cymaint mwy y gellid ei ddweud. Ond wrth inni ddod at ben y dalar, fe hoffwn iti fod yn camu i'r ochr yn dy feddwl am ychydig a chymryd agwedd wahanol i'r un arferol yn ein hastudiaethau. Dychmyga dy fod wedi eistedd i lawr mewn cadair gyfforddus wrth ffenestr fawr, a bod yr haul yn tywynnu drwyddi. Dydy hi ddim yn ddiwrnod poeth, ond yn un o'r dyddiau hynny pan mae modd sylwi ar wres yr haul a'i groesawu. Mae'r tŷ yn dawel, ac mae'r rhain yn teimlo fel 15 munud gwerthfawr i ti dy hun. Mwynha nhw!

Bydded i'r Arglwydd dy fendithio

Mae Duw'n awyddus iti wybod dy fod yn cael dy garu'n fawr ganddo: y math o gariad sy'n brifo pan fyddi di ar wahân i'r person yr wyt yn ei garu, y math o gariad sy'n achosi i'th galon roi tro pan fyddi di'n ei weld ef neu hi eto. Mae bod dan fendith yn golygu profi drwy ffydd yr hyn a olyga i fod yn blentyn i Dduw. Gwybod am ei faddeuant, ei ras a'i dderbyniad. Ond mae hefyd yn golygu bod â'r cyfan sydd ei angen arnom mewn bywyd. Cyfeiria at ein bwyd a'n diod, ein diogelwch – y pethau hynny a gymerwn yn ganiataol, efallai, gan ein bod wedi eu datgysylltu oddi wrth y ddealltwriaeth mai trwy greadigaeth Duw y mae'r pethau hyn yn cael eu rhoi inni.

Rho ddiolch am y bendithion hyn.

Bydded i'r Arglwydd dy gadw

Beth bynnag fydd yn digwydd iti, p'un a ydy bywyd yn dod i'w fel yr oeddett ti wedi gobeithio neu beidio, yr wyt yn eiddo iddo ef trwy ffydd, hyd byth. Ni all un dim dy gymryd oddi wrtho. Yr wyt yn sicr ynddo ef hyd dragwyddoldeb. Rwyd yn blentyn wedi dy greu a'th fabwysiadu ganddo, ac etifeddiaeth gennyd na elli byth ei cholli.

Clod iddo am y rodd rasol hon.

Bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnat

Dyma lle y gall pelydrau'r haul ein helpu, oherwydd fe fyddwch yn gwybod bod y Beibl yn dweud bod Duw yn trigo mewn goleuni anchwiliadwy. Elli di ddim mynd yn agos at Dduw, ond gall Duw hysbysu ei hun i ti. Fe wnaeth hynny yng Nghrist, goleuni'r byd, ac mae ei wyneb wedi ei droi tuag atat. Delwedd ydyw, wrth gwrs, ond un rymus iawn. Mae Duw o'th blaid; mae Duw yn dy gornel di. Mae'n galw o ymyl y cae i'th annog, yn falch ohonot.

Treulia ennyd yn dweud wrtho sut mae hyn yn teimlo.


Bydded i'r Arglwydd fod yn drugarog wrthyt

Ie, dyna ni – gras. Hebdo, mae hi wedi darford amdanom. Rydym wedi methu'r prawf, wedi syrthio'n brin o'r nod, wedi methu'r targed. Ond mae gras yn edrych heibio i hyn i gyd; neu, yn hytrach, yn cywiro hyn i gyd. Gras sy'n rhoi medal yr enillydd am dy wddf ac yn dy arwisgo â choron o gyfiawnder. Sut y gall hyn fod? Mae'n syml yn wir. Cymerodd Iesu dy le di a minnau. Cymerodd yr hyn oedd i ddod i ni. Sugnodd y gwenwyn i gyd yn ddi-gŵyn. Ac os bu'n rasol unwaith, fe fydd yn rasol bob amser. Ble wyt ti arni heddiw?

Gofyn iddo am ras yn ôl y dydd i wynebu'r heriau o'th flaen heddiw.

Bydded i'r Arglwydd edrych arnat

Yma mae gennym esiampl o gyfatebiaeth Hebreig, yn dweud yr un peth ddwywaith ond yn defnyddio geiriau gwahanol – fel 'Eiddo'r ARGLWYDD yw'r ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo' (Salm 24:1, BCND). Mae rhywfaint o hynny yma, ond yn aml fe geir rhyw ddatgeliad pellach oherwydd y dewis o eiriau gwahanol. Yma, fe gawn ein hannog i weld bod y wedd – yr olwg sydd ar yr wyneb a droir i edrych arnom – yn un i'w chroesawu ac nid i'w hofni. Mae yna wên ar wyneb Duw wrth iddo weld yr union berson yr wyt ti'n ei weld pan fyddi'n edrych yn y drych. Ond pan fyddi'n edrych yn y drych, mae'n debyg dy fod yn feirniad llymach na Duw. Yr wyt ti'n edrych ac yn gwingo; y mae ef yn edrych ac yn goleuo.



Yr wyt ti'n edrych ac mae cywilydd arnat; y mae ef yn edrych arnat gyda balchder. Edrychi di a meddwl, 'Beth os?'; edrych ef a meddwl, 'Pam lai?'

Treulia ennyd yn ddweud wrtho sut rwyd ti'n teimlo.

Bydded i'r Arglwydd roi iti heddwch, shalom

Mae Duw am iti wybod am y bodlonrwydd tawel hwnnw sy'n dod o wybod y bydd popeth yn iawn. Alla i ddim dweud, 'mae popeth yn iawn', oherwydd fyddet ti ddim yn fy nghredu. Fe fyddet ti'n gwrthod gwrandao arnaf, ac fe fyddet ti'n iawn. Byddai dweud bod popeth yn iawn yn gwneud sbort o'r byd a'i bobl, y rhai sy'n ymdrechu i roesi ac sydd wedi gorfod cario mwy na'u siâr o ddiodef, o ddiffyg anrhydedd, cywilydd a siom. Mae gwybod amdanynt yn dy wneud di a minnau'n anesmwyth, ac eto mae Duw am iti wybod bod shalom ar ddod. Fe'i henillwyd eisoes ar gost fawr, ac y mae'n dod. Does dim modd ei stopio. Does dim modd dweud yn iawn amdano. Does dim modd ei ddeall yn iawn. Yn wir, os gweli fod yn dda, dos heddiw yn enw ac yn nerth yr Arglwydd i roi mynegiant iddo – dyro fwyd i'r newynog, dillada'r noeth, dyro ddŵr i'r sychedig ac ymweld â'r carcharor. Dos hefyd â phryd o fwyd at gymydog gwael, cynigia warchod i riant sengl ar ben ei thennyn, dyro rodd hael i rywun rwyd ti'n ei adnabod sydd mewn angen.

Cymer amser i ystyried sut y gelli di rannu heddwch Duw efo rhywun heddiw.

Bydd yn dangnefeddwr.

Ffydd a Diwylliant

Parch am amarch

Mae dygymod ag amarch
Yn ail i orwedd mewn arch.

Mae'r cwpld hwn wedi troi yn fy mhen ers degawdau. Tybed a wyddoch chi pwy yw'r awdur? Pwy bynnag ydy o neu hi, mae wedi rhoi gwaith meddwl i mi dros y blynyddoedd.

Onid ydy o'n dweud calon y gwir? Os ydyn ni'n fodlon cymryd ein gwawdio a'n dirmygu, waeth i ni rowlio drosodd a marw ddim, na waeth?

Ond rwy'n cofio rhywun y mae gen i barch mawr i'w barn hi yn mynnu bod hyn yn tynnu'n groes i ddyseidiaeth Crist i droi'r foch arall. Oherwydd hynny, dwi'n meddwl i'r cwpld droi yn fy meddwl fwy fyth – yn arbennig felly'r wythnosau diwethaf yma.

Dyna i chi 'ymosodiadau' Jeremy Bowen a Jonathan Meades. Nid ymosodiadau chwaith, ond amarch. Amarch cyson, yn differu'n barhaus, digon i frifo, digon ysgafn i'n cyhuddo o fod yn groendenau.

Wedyn, dyma wrando ar bregeth oedd yn cerdded yn ddewr yn y Tir Neb hwnnw lle nad ydy pregethwyr i fod i fentro, rhywle rhwng gwleidyddiaeth a chrefydd.

A rhoi gwleidyddiaeth o'r neilltu am funud, beth am ystyried ymddygiad? Celwydd noeth, chwarae â'r gwirionedd, chwerrthin am ben ymdrechion unplyg i gadw at y rheolau. Beth bynnag fydd canlyniad yr ymchwiliad i'r rhestr, onid bodolaeth y rhestr ynddi ei hun yw'r amarch eithaf i'r gweddill ohonon ni, aberthodd i gadw at y rheolau?

Oni fyddai dygymod â'r fath amarch yn ail i orwedd mewn arch? Yn golygu ein bod ni y tu hwnt i boeni am egwyddorion sylfaenol bywyd? Yn gwadu ein cyfrifoldeb i wneud rhywbeth am y peth?

A dyna nodi trigain mlynedd ers traddodi 'Tynged yr Iaith'. Onid ydy hi'n hawdd anghofio, mewn oes sy'n anelu at greu miliwn o siaradwyr, cymaint o amarch oedd yna tuag at yr iaith a'r rhai oedd yn brwydro drosti. Oni bai am y rhai hynny wrthododd ddygymod ag amarch, oni fyddai'r Gymraeg yn ei harch, fel y profwyddodd Saunders Lewis?

Er bod Crist wedi troi tu min at y masnachwyr yn y deml, siawns mai ei wers fwyaf i ni yw troi'r foch arall. Ond go brin mai dygymod ag amarch yw hynny.

Onid un o'r gwersi mawr ddysgodd Gandhi o'r *Bhagavad Gita* a chan Grist oedd i beidio dygymod ag amarch? Ac onid ein braint ni drwy Gandhi a King a Saunders a Merêd yw etifeddu'r traddodiad di-drais?

Ond mae'n rhaid i ni etifeddu traddodiad byw, ac nid crair. Be wnawn ni pan fo'n hiaith, ein gwlad, a'n pobl yn cael eu hamharchu? Be wnawn ni pan fo egwyddorion mwyaf sylfaenol ein ffydd – gwarchod y tlawd, ymddwyn tuag at eraill fel y bydden ni am i bobl ymddwyn tuag aton ni – ymhell, bell y tu hwnt i brofiad a chrebwyll, a chydymdeimlad, miliwnyddion a biliwnyddion ein byd gwleidyddol? Ein lle ni, fel unigolion, cymunedau ac eglwysi, yw camu allan i'r Tir Neb hwnnw, oherwydd mae o'n dir y dylen ni ei hawlio, a gwrthod dygymod ag amarch. Gwrthod gorwedd mewn arch.

Arwel Rocet Jones



EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU Gofalaeth Bangor a'r Cyffiniau

Cynorthwydd gweinidogaethol Plant, Ieuencid a Theuluoedd yr ofalaeth

Mae Gofalaeth Bresbyteraidd Bangor a'r Cyffiniau yn chwilio am berson egniol a brwdfrydig i weithio yn ei thair eglwys a datblygu'r gwaith ymhellach.

Oriau: 35 awr yr wythnos (neu oriau i'w trafod)
Cytundeb: 3 blynedd yn y man cyntaf, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
Cyflog: Graddfa 26-30 (£25,913-£28,049) ynghyd â lwfans tŷ o £3,000 a chyfle i ymuno â phensiwn EBC

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirada boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – Mr Hedd Morgan,
hedd@ebcpcw.cymru; ffôn: 07815960439

Dyddiad cau:
28 Chwefror 2022 am 4 o'r gloch
Dyddiad y Cyfweiliad:
8 Mawrth 2022 ym Mangor

Amgyffred

Mae'n werth myfyrio (neu gnoi cil) ar y gair 'amgyffred'. I mi, mae'n golygu mwy na dim ond deall. Yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru, mae'r diffiniad o'r gair 'amgyffred' yn cynnwys dirnadaeth, yn ogystal â dealltwriaeth. Y cyfieithiad Saesneg yw 'comprehension' (capability of understanding).

Mae gennyf frith gof am wersi Saesneg (yn oes yr arth a'r blaidd) lle roedd gofyn inni ysgrifennu 'comprehension' am ddarn o lenyddiaeth. Roedd hynny er mwyn gweld a oeddem wedi deall y cynnwys.

Wrth ysgrifennu at Eglwys Effesus mae Paul yn annog y Cristnogion i roi sylw arbennig i gariad Crist. Mae'r paragraff yn yr argraffiad diwygiedig o'r Beibl Cymraeg Newydd yn dwyn y teitl 'Gwybod Cariad Crist'.

Dyma sut mae'r paragraff yn darllen yn Beibl.net:



Llun: Joshua Earle on Unsplash

Wrth feddwl am hyn i gyd (sef cynnwys y newyddion da) dwi'n syrthio ar fy ngliniau i weddio ar Dduw y Tad.

Dw i'n gweddio y bydd yn defnyddio yr holl adnoddau bendigedig sydd ganddo i'ch gwneud chi'n gryf, ac y bydd yn rhoi nerth mewnol i chi drwy roi ei Ysbryd Glân i chi. Dw i'n gweddio hefyd y bydd y Meseia ei hun yn gwneud ei gartref yn eich calonnau chi wrth i chi ymddiried ynddo fe. Dw i am i'w gariad e fod wrth wraidd popeth dy'ch chi'n ei

wneud – dyna'r sylfaen i adeiladu arni.

Dw i am i chi, a phobl Dduw i gyd, ddeall pa mor aruthrol fawr ydy cariad y Meseia.

Mae'n lletach, yn hirach, yn uwch ac yn ddyfnach na dim byd arall.

Dw i am ichi brofi y cariad hwnnw, sy'n llawer rhy fawr i'w brofi'n llawn, er mwyn i chi gael eich llenwi â'r cwbl sydd gan Dduw ar eich cyfer. Clod iddo.

Mae'n gwneud llawer iawn mwy na dim y byddem ni'n mentro gofyn amdano, na hyd yn oed yn gallu ei ddychmygu.

Dylem ni sydd yn yr Eglwys ac wedi'n huno gyda'r Meseia Iesu roi clod iddo am byth bythoedd.

(Effesiaid 3:14-21)

Mae geiriau Paul yn ddarlun byw o beth yw amgyffred.

Mae emynau 331-335 yn *Caneuon Ffydd* yn cynnwys apêl am gymorth i ddeall Gair Duw yn ogystal â moliant i Grist.

Tom Williams
Dinbych

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Disgleirdeb pen y bryniau a dyffrynnoedd tywyll

Salm 99: Salmau Cân Newydd

Cyflwyniad

Dacw blentyn bychan. Nid yw wedi gweld ei fam, neu ei dad, ers oriau, ac mae'r dydd yn dechrau mynd yn hir heb eu cwmni. Dacw'r drws yn agor ac mae'r bychan yn gweld yr un yr hiraethai cymaint amdani (amdano), ac yn lle tristwch mae ei wyneb yn llythrennol yn disgleirio o hapusrwydd. Diflannodd y tristwch a'r tywyllwch wrth i'w fywyd gael ei lenwi gan hapusrwydd a goleuni.

Yn ein darlenniadau heddiw cawn weld disgleirdeb a llawenydd a rhyfeddod wrth i bobl gyfarfod â'r Hollalluog ei hun.

Gweddi

Arglwydd Dduw, datguddiaist dy hun i ni mewn llawer dull a modd gan sicrhau nad oeddet heb dystiolaeth mewn unrhyw genhedlaeth. Mewn hanes, drwy dy air, drwy'r proffwydi lleferaist wrth genedlaethau o'th bobl. Pan oeddent yn ffyddlon neu'n anffyddlon, parheist i ddyrchafu dy enw a'th air. Diolchwn i ti dy fod, drwy dy Fab ac ynddo ef, wedi dod yn oleuni i'r cenhedloedd, yn obaith i bob oes. Tyn y gorchudd ar y mynydd hwn a llewyrcha haul dy oleuni ar ein meddyliau a'n calonnau y dydd hwn. Amen.

Emyn 571 'Tyrd, Ysbryd Glân, i'n c'lonnau ni'

Darlenniad Exodus 34:29-35 Disgleirdeb a gosod gorchudd

Yn ystod ei weinidogaeth treuliodd Moses ddyddiau lawer yng nghwmni'r Arglwydd, 'wyneb yn wyneb', fel petai. Ar un achlysur disgrifia awdur Llyfr yr Exodus effaith un o'r cyfarfyddiadau hynny ar Moses ac ar y bobl yr oedd yn eu harwain.

Mor ddisglair yn wir oedd ei wedd fel y bu'n rhaid iddo wisgo gorchudd i guddio'i wyneb rhag ei gyfoeswyr.

Dacw Moses, arweinydd ei bobl, heriwr a gorchfygwr Pharo, a'i wedd yn disgleirio am iddo fod yng nghwmni'r Arglwydd. Dacw Moses, gwas o benodiad dwyfol, buddugwr yr Exodus a thywysydd ei genedl at ffiniau 'gwlad yr addewid', a'i wedd yn ddisglair. Dacw Moses wedi ei gyfarfyddiad dyrchafol yn gorfod disgyn o ben y bryn i wynebu heriau'r dyffryn a'r anialwch, a gwrthryfel ystyfnig ei bobl. Dacw Moses. Er mor ddyrchafol oedd y profiad ac er mor ogoneddus oedd y cyfarfyddiad,

adlewyrchu 'goleuni' oedd y gorau y medrai Moses ei wneud. Arwain ei bobol mewn Exodus o waredigaeth a wnaeth Moses. Ond cysgod oedd y waredigaeth o Exodus mwy oedd eto i ddod.

Darlenniad 2 Corinthiaid 3:12-4:2 Symud y gorchudd a disgleirdeb

Roedd y gogoniant a amgylchynodd Moses yn ddigwestiwn yn ddyrchafol, yn sanctaidd ac yn aruchel. Tystiolaethai'r disgleirdeb i ddeddf a chyfraith, a methiant pobl i gadw eu rhan nhw o'r cyfamod a ddaeth fel ymateb i'w gwaredigaeth o'r Aifft. Goleuni a barodd i'r bobl alw am orchudd i'w guddio rhag eu golwg. Ymateb naturiol oedd hyn i ddisgleirdeb dwyfol. Ond yn y pen draw goleuni a bylodd ydoedd.

I bob un ohonom, oni phrofir yr Ysbryd Glân ynom, tywyllwch fydd Gair disgleiriaf Duw. Pan drown at yr Arglwydd a'i geisio drwy'r Ysbryd Glân, symudir y gorchudd a rwystrai i ni weld gogoniant yr Arglwydd; daw bywyd a rhyddid ac adnabyddiaeth i gymryd eu lle. Ac yn y cyfarfyddiad grasol hwn cawn ein trawsffurfio o 'ogoniant i ogoniant' yr Arglwydd ei hun.

Tybed a droesom ni at yr Arglwydd, yr hwn sy'n trawsnewid ein disgwyliad a'n profiad ohono? Tybed a ydym fel cynulleidfaoedd yn euog o geisio rhoi'r disgleirdeb o dan orchudd ein harferion a'n trefniadaeth, a'n traddodiadau enwadol?

Darlenniad Luc 9:28-43 Y Gweddnewidiad

Drwy gydol ei efengyl mae Luc wedi cofnodi'r hyn a ddywedwyd gan angyllion, gan fugeiliaid, gan Satan a demoniaid, a chan ei ddisgyblion, am Iesu. Tystiodd llais o'r nef mewn datganiad o fodlonrwydd nefol y Tad yn ei Fab mai, 'Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd'. Symudwyd Pedr a'r disgyblion o'i gydnabod yn 'Feistr' ac yna yn 'Arglwydd' (Luc 5:5, 9), i'w adnabod fel 'Meseia Duw' (9:20).

Ond yn unionsyth wedi'r adnabyddiaeth ryfeddol honno, dechreuodd Iesu droi ei olygon, fel Mab y Dyn, tuag at Jerwsalem, ei ddiodefaint, ei groeshoeliad a'i atgyfodiad. Dyma symudiad rhyfeddol o uchelfannau adnabod i ddyfnderoedd realiti'r gost o ganlyn Mab y Dyn.

Yno, ar fynydd (na cheir ei enwi), newidiodd gwedd Iesu. Am ennyd, disgleiriodd ei wedd fel disgleirdeb mellten; disgleiriodd ei 'ogoniant'. Dylem gofio bod i'r gair a

gyfieithir yn 'ogoniant' darddiad sy'n dwyn awgrym o 'bwysau' dwyfol. A'r pwysau llethol hwnnw, mae'n bosib, barodd i gwsg lethu Pedr, lago ac Ioan.

Ymddangosodd Moses ac Elias. Gerbron yr Arglwydd ymddangosodd Moses, yr hwn a gyhoeddodd y deuai un a fyddai, fel yntau, yn cyhoeddi gair Duw (Deuteronomium 18:15-19) mewn gogoniant nefol. Cynrychiolai Elias hefyd lefarwyr ffyddlon Gair Duw a fyddai'n paratoi ffordd yr Arglwydd (Habacuc 4). A'i ogoniant yntau oedd gweld yr hwn y darfu i Moses a'r proffwydi ddweud amdano mewn disgleirdeb nefol. Ac roedd Moses wedi adlewyrchu'r disgleirdeb hwn yn ei ddydd. Unwaith eto, gogoniant Iesu yw'r realiti, y gwir oleuni sy'n dyfod i'r byd: goleuni'r byd, disgleirdeb y Tad.

Yn ganolog i neges y proffwydi yr oedd y gair am yr eneiniog, am Fab y Dyn, am y gwas dioddefus drwy'r hwn y deuai rhyddid i'r byd. Nid damweiniol felly yw eu bod yn sôn am ei 'ymadawiad' – yn llythrennol, ei Exodus. Dyma'r un a ddygai air Duw, ond a ddygai hefyd wir yddid i'w bobl rhag gormes Satan a'r bedd.

Y tro hwn, nid i Iesu, ond i'w ddisgyblion, y gwnaed y datganiad dwyfol, 'Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd, gwrandewch arno.' Yng nghwmwl presenoldeb yr Arglwydd gweddnewidid Iesu, cyhoeddwyd ei fawredd a chlywodd y byd gyhoeddiad dwyfol am ogoniant a hawl y Mab i wrandawriad ac uffudd-dod.

Pwy na fyddai, gyda Phedr, wedi hoffi parhau yn y weledigaeth aruchel hon? Ond roedd y daith o'r mynydd i'r dyffryn yn fwy na symudiad daearyddol. Roedd yn symudiad ysbrydol a misiolegol hefyd. Byw mewn dyffrynnoedd o dristwch ac o salwch a chri demoniaid lloerig yw realiti profiad eglwys Iesu Grist. Ac yn y dyffrynnoedd hynny cyhoeddir mawredd Arglwydd y gogoniant a gallu, rhawd ac Exodus Mab y Dyn.

Gweddi

Maddau, Arglwydd, i ni ein bod wedi colli golwg ar dy fawredd ac ysblander dy ogoniant. Arglwydd, trown atat ti gan ddeisyf am weithrediad newydd o waith dy Ysbryd Glân i ddangos i ni 'olud Crist yn fodd i fyw'.

Emyn 599 'Tyrd, Ysbryd cariad mawr'

RWJ

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)